LATITUDE LAW

# Gwybodfan Celf y DU - Bore Coffi 4 Ebrill 2023

Cwestiynau Cyffredin:

- Rheolau mewnfudo i ymwelwyr â’r DU a Gwaith Dros Dro
- Noddi Gweithwyr Creadigol
- Newidiadau sydd ar y gweill i reolau teithebau i ymwelwyr
- Awdurdodiadau Teithio Electronig

**Ymwelwyr**

## Adnoddau defnyddiol:

- Rheolau Mewnfudo'r Swyddfa Gartref sy'n berthnasol i ymwelwyr: https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-v-visitor
- Rheolau Mewnfudo sy’n cadarnhau gweithgareddau a ganiateir gan ymwelwyr: https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-visitor-permitted-activities
- Rhestr genedlaethol o deithebau sy’n cadarnhau pa sawl cenedl sy'n gorfod sicrhau teithebau cyn teithio i Brydain am unrhyw reswm: https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-visitor-visa-national-list
- Rhestr o wyliau didrwydded sy’n cadarnhau'r gwyliau hynny sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd dan gynllun y gwyliau didrwydded: https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/-immigration-rules-appendix-visitor-permit-frer enghraifft-festival-list
- Canllawiau gweithwyr achos am deithebau a mewnfudo i Brydain o ran ymwelwyr: https://www.gov.uk/government/publications/visit-guidance
- Teithebau’r DU a gwybodaeth mewnfudo am Weithio â Thâl a Ganiateir: https://www.gov.uk/permitted-paid-engagement-visa
- Atodiad Rheolau Mewnfudo i Ymwelwyr: Rhestr o reolaug ŵyliau di-drwydded - Immigration Rules - Immigration Rules Appendix Visitor: Permit Free Festival List - Guidance - GOV.UK (www.gov.uk)
- Canllawiau i weithwyr achos am deithebau a mewnfudo - Ardal Deithio Gyffredin: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1061547/Common_travel_area.pdf

## Cwestiynau cyffredin

**Yn y cynllun Gwaith â Thâl a Ganiateir, sut mae Teithebau a Mewnfudo’r DU yn asesu a yw'r corff sy'n gwahodd yr ymwelydd yn 'sefydliad' at bwrpas y Rheolau Mewnfudo?**

Mae canllawiau i weithwyr achos (ymwelwyr) Teithebau a Mewnfudo’r DU (tudalen 60) yn rhoi diffiniad eang o 'sefydliad' sef 'pob sefydliad sy'n ymwneud â gweithgareddau artistig ac adloniant.' Mae’r enghreifftiau penodol yn cynnwys orielau, cyfadrannau neu adrannau celfyddydol mewn prifysgolion, ysgolion a lleoliadau sy'n ymwneud â chynhyrchu neu lwyfannu digwyddiadau. Cadarnheir hefyd y gall asiantau a darlledwyr ym Mhrydain wahodd unigolion i ymgymryd â gwaith cyflogedig ym Mhrydain.

Pwynt arwyddocaol yng nghanllawiau Teithebau a Mewnfudo’r DU yw bod yn rhaid derbyn y sefydliad sy’n gwahodd yn un dilys. Mae hyn yn golygu y bydd yn ddefnyddiol rhoi llythyrau gwahoddiad ar bapur pennawd sy'n cynnwys manylion cofrestru gydag unrhyw gyrff cydnabod, fel y Comisiwn Elusennau.

**A all ymwelydd Gwaith â Thâl a Ganiateir nad oes arno angen teithebau (er enghraifft, rhywun o'r Unol Daleithiau neu’r Undeb Ewropeaidd) fynd drwy eGate wrth gyrraedd y DU, neu oes rhaid iddo weld Swyddog Ffiniau?**

Cyngor Teithebau a Mewnfudo’r DU yw y dylai ymwelwyr Gwaith â Thâl a Ganiateir sy'n cyrraedd gael pasbort wedi'i stampio wrth gyrraedd gan Swyddog Ffiniau ac osgoi defnyddio eGate: https://www.gov.uk/government/publications/coming-to-the-uk/faster-travel-through-the-uk-border. Mae’r un cyngor yn berthnasol i'r rhai sy'n cyrraedd ar gyfer aseiniadau tymor byr dan y Llwybr Gweithwyr Creadigol.

**A all Ymwelwyr Arferol (nad ydynt yn rhai Gwaith â Thâl a Ganiateir ac nad ydynt yn rhai Gwyliau Didrwydded) gael eu treuliau wedi’u talu gan rywun ym Mhrydain? Beth sy'n cyfrif fel treuliau rhesymol?**

Mae'r Rheolau Mewnfudo (Atodiad V, paragraff 4.2(e) a 4.3) yn cadarnhau y gall teithio, cynhaliaeth a llety ymgeisydd gael eu talu gan rywun ym Mhrydain. Rhaid cael perthynas broffesiynol neu bersonol go iawn rhwng yr ymgeisydd a'r person arall (a ddangosir yn y rhan fwyaf o achosion gan gontract ysgrifenedig) a rhaid i'r cynnig o gymorth fod am gyfnod ymweld yr ymgeisydd.

Dan ganllawiau i weithwyr achos (ymwelwyr) Teithebau a Mewnfudo (tudalennau 23 - 25), rhaid cael digon o adnoddau i gynnal yr unigolyn yn ddigonol ar gyfer hyd ei ymweliad â Phrydain. Nid oes lefel benodol, angenrheidiol i ddangos hyn na diffiniad clir o 'ddigonol'.

Ond rhaid bod talu am hedfan, gwestai, a bwyd yn dderbyniol o ystyried gofynion y rheolau, ond ni fyddai taliadau ychwanegol sy'n cynnwys teithio, cynhaliaeth na llety yn briodol a byddent yn gyfystyr â thalu, sy'n cael ei wahardd yn benodol.

**A all unigolyn gyfuno Gwaith â Thâl a Ganiateir a Gwyliau Didrwydded mewn un ymweliad?**

Un pwrpas sydd gan y rhai a dderbynnir at ddibenion Gwaith â Thâl a Ganiateir sef diwallu gofynion eu gwahoddiad. Lle mae'r ymwelydd Gwaith â Thâl a Ganiateir yn un sydd arno angen teitheb ac angen cael y deitheb gorfforol honno cyn teithio i Brydain, mae hyn yn amlwg. Mae gan rai nad oes arnynt eisiau teitheb at yr un pwrpas, ond yn hytrach, datganir hyn wrth y ffin (felly mae'r Teithebau a Mewnfudo'r DU yn argymell bod ymwelwyr Gwaith â Thâl a Ganiateir yn cael eu derbyn gan Swyddog Ffiniau yn hytrach na defnyddio eGate). Mae cyfuno Gwaith â Thâl a Ganiateir a Gwyliau Didrwydded felly yn groes i bolisi mewnfudo'r DU. Y cyngor fyddai i ymadael â Phrydain ar ôl y Gwaith â Thâl a Ganiateir a dychwelyd ar gyfer y Gwyliau Didrwydded.

Nid oes cyfyngiad penodol ar nifer yr ymweliadau y gall unigolyn eu gwneud â Phrydain mewn unrhyw flwyddyn. Fodd bynnag, dylai unigolion fod yn ofalus i beidio â threulio mwy na hanner eu hamser ym Mhrydain; byddai hyn yn cael ei ystyried fel sefydlu preswylfa ym Mhrydain drwy ymweld ac ni chaniateir hynny.

**Beth yw'r dewis gorau lle mae sawl agwedd ar un daith (boed yn Waith â Thâl a Ganiateir, Gwyliau Didrwydded, neu ymwelydd arferol)?**

Lle mae sawl agwedd ar daith ac nid yw'n ymarferol cael sawl ymweliad byr, y dewis gorau yw noddi'r unigolyn dan deitheb Gweithiwr Creadigol (Gwaith Dros Dro). Mae hwn yn ddewis mwy hirdymor gan y gall yr unigolyn ddod i Brydain am uchafswm o hyd at 12 mis, y gellir wedyn ei ymestyn.

Mae noddi Gweithiwr Creadigol (Gwaith Dros Dro) yn amlwg yn fwy cymhleth na'r cymorth llai ffurfiol a roddir i ymwelydd Gwaith â Thâl a Ganiateir. Rhaid i noddwyr wneud cais i Deithebau a Mewnfudo'r DU am drwydded noddi a bydd angen iddynt roi Tystysgrif o Nawdd i unigolion i gefnogi eu ceisiadau ffurfiol am deithebau.

Yn aml mae angen i weithwyr creadigol berfformio neu weithio mewn sawl lleoliad neu ddigwyddiad gwahanol. Os oes un noddwr ('asiant' yn enghraifft Teithebau a Mewnfudo'r DU) ac nid dim mwy na 14 diwrnod calendr rhwng pob digwyddiad, gall y noddwr gyhoeddi un Dystysgrif o Nawdd ar gyfer yr holl gyfnod ym Mhrydain. Fodd bynnag, os bydd nifer o noddwyr, er enghraifft, lleoliadau, cynhyrchwyr neu hyrwyddwyr unigol, rhaid i bob noddwr gyhoeddi Tystysgrif o Nawdd am eu sioe eu hunain. Ni ddylai'r cyfnodau o waith a nodir ar y tystysgrifau orgyffwrdd, ond gall yr unigolyn wneud cais am un deitheb ar gyfer hyd yr holl dystysgrifau. Gall teithiau fod yn gymhleth - byddem yn argymell gofyn am gyngor cyfreithiol penodol amdanynt.

Rhaid i unigolion sy'n cael eu noddi fel hyn fodloni gofynion ychwanegol, gan gynnwys tystiolaeth o arian priodol. Rhaid i'r unigolyn gael o leiaf £1,270 a oedd gydag ef am gyfnod o 28 diwrnod neu gall y noddwr 'ardystio' y gofyniad hwn. Mae hyn yn golygu bod y noddwr yn rhoi addewid y bydd, os bydd angen, gynnal a lletya'r unigolyn hyd at ddiwedd mis cyntaf ei gyflogaeth i'r swm o £1,270 o leiaf. Cadarnheir yr ardystiad hwn drwy'r Dystysgrif o Nawdd.

**A all artist sy'n ymwelydd arferol ddod i Brydain os yw'n cael ei dalu gan ffynhonnell nad yw ym Mhrydain?**

Mae'n bosibl i bobl nad oes arnynt angen teitheb a phobl y mae arnynt angen teitheb a delir gan ffynhonnell nad yw ym Mhrydain fynd i mewn drwy lwybr yr ymwelwyr. Mae yn ôl disgresiwn y Swyddog Ffiniau i benderfynu a yw'r artist yn ymwelydd go iawn, ac a yw'n bwriadu ymgymryd yn unig â gweithgareddau a ganiateir a restrir dan yr Atodiad Rheolau Mewnfudo: Gweithgareddau a Ganiateir dan baragraff PA 14.1. O ran y dystiolaeth o hyn, argymhellir bod yr artistiaid yn cario llythyrau/dogfennau sy'n amlinellu'r prif reswm am eu hymweliad â'r DU, yn ogystal â dyddiadau'r holl ddigwyddiadau a ffynonellau tramor yr arian a gânt ar gyfer y daith.

**A all unigolion apelio os yw eu teithebau yn cael eu gwrthod, neu os gwrthodir mynediad iddynt i Brydain?**

Ni chaiff y rhai sy'n gwneud cais am deithebau ymweld - neu gyrraedd y ffin a cheisio mynediad - yr hawl i apelio os gwrthodir eu cais. Caiff ymgeiswyr a noddir am deithebau neu fynediad well siawns o gael yr hawl i ofyn am Adolygiad Gweinyddol o'u gwrthodiad, ond nid proses apêl annibynnol yw hon ac mae'n ceisio cywiro dim ond y gwallau mwyaf difrifol ym mhenderfyniadau Teithebau a Mewnfudo'r DU.

Yn aml gwrthodir ymwelwyr a rhai a noddir am gyfnodau byr (er enghraifft 12 mis neu lai) am resymau goddrychol. Bydd y rhain yn anodd eu herio, yn enwedig am nad oes hawl apelio yn erbyn gwrthod teithebau ymweld neu wrthod mynediad i Brydain a'r unig opsiwn yw Adolygiad Barnwrol. Mae hwn yn asesiad annibynnol o degwch gweithdrefnol proses benderfynu Teithebau a Mewnfudo'r DU sy'n digwydd yn Uwch Dribiwnlys y Siambr Mewnfudo a Lloches ym Mhrydain. Nid apêl mohoni a chanlyniad Adolygiad Barnwrol llwyddiannus yw i Deithebau a Mewnfudo'r DU ailystyried y cais, nid rhoi teitheb neu ganiatáu mynediad. Am y rheswm hwn, ynghyd ag amser hir y broses a'r costau uchel, nid yw Adolygiad Barnwrol yn ffordd rwydd o geisio cyfiawnder.

Fodd bynnag, cam cyntaf Adolygiad Barnwrol yw gohebu â Theithebau a Mewnfudo'r DU ("llythyr protocol cyn gweithredu") a gall hyn fod yn ffordd effeithiol o herio penderfyniadau sy'n gwbl anghywir neu'n annheg. Mae'r llythyr ffurfiol hwn yn gyfle i nodi pryderon am y gwrthodiad ac i wahodd Teithebau a Mewnfudo'r DU i ailystyried eu penderfyniad cyn mynd i'r llys. Gall hyn fod yn ddewis da lle mae penderfyniad negyddol wedi codi o ragfarn, camddealltwriaeth neu gamgymeriad clir ac nid oes unrhyw opsiynau cyfreithiol eraill ar gael.

**Beth yw'r broses ar gyfer mynd i Brydain drwy Iwerddon ar gyfer Gwaith â Thâl a Ganiateir?**

Gall y rhai sy'n dod i Brydain drwy Iwerddon ar gyfer gwaith â thâl a ganiateir aros ym Mhrydain ar sail Erthygl 6 Caniatâd Tybiedig am hyd at fis. Mae Caniatâd Tybiedig yn ganiatâd i fynd i Brydain drwy Iwerddon heb i'ch pasbort gael ei stampio. Mae hyn oherwydd na fydd yr ymwelydd o reidrwydd yn cyfarfod â Swyddog Ffiniau wrth groesi rhwng y DU ac Iwerddon. Nid oes rhaid i ymwelwyr wneud cais am ganiatâd tybiedig. Mae caniatâd tybiedig yn dechrau o'r dyddiad y mae'r ymwelydd yn mynd i Brydain am y tro cyntaf o Iwerddon. Mae'r caniatâd tybiedig hwn yn dod i ben pan fydd yr ymwelydd yn ymadael â Phrydain.

## Gwaith Dros Dro - Noddi Gweithwyr Creadigol

### Adnoddau defnyddiol:

| | |
|---|---|
| Rheolau mewnfudo | Immigration Rules, Appendix Temporary Work—Creative Worker |
| | Immigration Rules, Appendix Creative Worker Codes of Practice |
| | Immigration Rules, Appendix Finance |
| Canllawiau'r Swyddfa Gartref | Workers and Temporary Workers Sponsor Guidance, Sponsor a Creative Worker |
| | Temporary Work caseworker guidance |
| Offeryn gwybodaeth teithebau'r Swyddfa Gartref | Temporary Work—Creative Worker visa |

### Cwestiynau cyffredin

**Pa mor hir mae'n ei gymryd i fod yn Noddwr cofrestredig a faint mae'n ei gostio gan gynnwys ffioedd cyfreithwyr?**

Mae'r broses ymgeisio ar-lein yn ddigon syml, gan gymryd tua 30 munud. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn darllen y gwahanol ganllawiau noddi uchod er mwyn deall eich cyfrifoldebau cyn bwrw ymlaen.

Ffi'r llywodraeth am sefydliad neu elusen fach (llai na 50 o weithwyr, a siarad yn fras) yw £536. Ar gyfer sefydliadau mwy, mae'n £1476. Mae'r drwydded yn ddilys am 4 blynedd. Mae ffioedd cyfreithwyr yn amrywio'n sylweddol.

**Os gwahoddir cwmni i berfformio mewn gŵyl beth yw'r llwybr gorau i'w perfformwyr a'u staff cynorthwyol?**

Lle gellir derbyn y perfformwyr yn ymwelwyr i Brydain, gall y staff technegol a chynhyrchu roi cefnogaeth ym Mhrydain ar yr amod eu bod yn mynychu'r un digwyddiad â'r perfformwyr ac yn cael eu cyflogi i weithio iddynt y tu allan i Brydain.

Lle mae gan y perfformwyr nawdd, mae'n wahanol. Gall person gael ei noddi fel Gweithiwr Creadigol os yw'n rhywun sy'n gweithio yn y diwydiant creadigol, er enghraifft; actor, dawnsiwr, cerddor neu aelod o griw ffilm. O ganlyniad, gellir noddi Gweithwyr Creadigol mewn rolau nad ydynt yn perfformio lle mae'n berthnasol i'r digwyddiad/cynhyrchiad a lle bodlonir pob gofyn arall (megis talu isafswm cyflog fel y'i gosodir gan Ecwiti, PACT neu BECTU fel y bo'n briodol).

**A ellir is-gontractio gweithwyr a noddir i leoliadau eraill?**

Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref dan y teitl Noddi Gweithiwr Creadigol yn nodi'r wybodaeth ganlynol am roi Tystysgrif o Nawdd i Weithiwr Creadigol ar gyfer digwyddiadau lluosog neu olynol:

> **Rhoi Tystysgrif o Nawdd ar gyfer digwyddiadau lluosog neu olynol**
> CRW5.15. Oherwydd natur y sector creadigol, weithiau mae angen i weithwyr creadigol wneud nifer o ddigwyddiadau mewn gwahanol leoliadau. Os mai chi fydd unig noddwr y gweithiwr ym Mhrydain ac nid oes mwy nag uchafswm o 14 diwrnod rhwng pob digwyddiad (ac eithrio amser a dreulir y tu allan i Brydain) gallwch gael un Dystysgrif o Nawdd ar gyfer yr holl gyfnod. Gelwir hyn yn rhoi Tystysgrif o Nawdd ar gyfer 'sawl digwyddiad'.
>
> CRW5.16. Os bydd gan y gweithiwr fwy nag un noddwr tra bo ym Mhrydain - er enghraifft, nifer o leoliadau, cynhyrchwyr neu hyrwyddwyr – yna rhaid i bob un o'r noddwyr roi Tystysgrif o Nawdd ar gyfer ei ddigwyddiad ei hun. Lle mae hyn yn wir, ni all yr un o'r Tystysgrifau o Nawdd orgyffwrdd ac ni ddylai fod bwlch o fwy na 14 diwrnod (ac eithrio amser a dreulir y tu allan i Brydain) rhwng pob Tystysgrif o Nawdd a roddir. Gelwir hyn yn Dystysgrif ar gyfer 'digwyddiadau olynol'.

Mae'r Swyddfa Gartref yn cydnabod, oherwydd natur y sector creadigol, y gallai fod yn ofynnol i artistiaid berfformio mewn sawl digwyddiad mewn gwahanol leoliadau. Er enghraifft, lle mai dim ond un noddwr sydd gan y Gweithiwr Creadigol ac ni fydd mwy na 14 diwrnod calendr rhwng pob

digwyddiad (gan gynnwys cyfnodau ymarfer), gellir rhoi un Dystysgrif o Nawdd ar gyfer sawl digwyddiad neu ddigwyddiadau olynol.

Os bydd y Gweithiwr Creadigol yn cael ei noddi gan leoliadau unigol, neu os bydd mwy na 14 diwrnod calendr rhwng digwyddiadau, rhaid cael Tystysgrif o Nawdd ar wahân ar gyfer pob digwyddiad. Os oes mwy na 14 diwrnod rhwng digwyddiadau, rhaid i'r Gweithiwr Creadigol ymadael â Phrydain a gwneud cais am fynediad gyda'r Dystysgrif newydd o Nawdd, oni bai nad oes arno angen teitheb a bod y Dystysgrif newydd o Nawdd ar gyfer cyfnod o dri mis neu lai. Rhaid i bob Tystysgrif o Nawdd beidio â gorgyffwrdd.

Er y caniateir i'r artist gael ei noddi gan leoliadau unigol â Thystysgrif o Nawdd ar wahân, mae'n aml yn fwy ymarferol i un noddwr roi Tystysgrif o Nawdd ar gyfer ei holl gyfnod ym Mhrydain. Yn aml, bydd hwn yn cael ei rhoi gan gorff cenedlaethol sydd â'r drwydded noddi berthnasol.

## Awdurdodiadau Teithio Electronig

### Adnoddau defnyddiol:

- Electronic Travel Authorisation (ETA) - GOV.UK (www.gov.uk)
- Nationality and Borders Bill: Electronic Travel Authorisation factsheet - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae'r Awdurdodiad Teithio Electronig yn ofyniad newydd a fydd ar waith, drwy gyflwyniad graddol gan ddechrau ar 15 Tachwedd 2023, i unigolion nad oes angen teithebau ar hyn o bryd cyn mynd i Brydain ar gyfer teithiau byr a hefyd Gwlad Iorddonen.

Bydd rhaid i bobl nad oes arnynt angen teithebau, dinasyddion o wledydd a all gael hepgor ar hyn o bryd deithebau electronig a dinasyddion o Wlad Iorddonen gael Awdurdodiad Teithio Electronig ar gyfer:

- Ymweld â Phrydain am hyd at chwe mis ar gyfer twristiaeth, ymweld â theulu a ffrindiau, busnes neu astudio;
- **Ymweld â Phrydain am hyd at dri mis dan gonsesiwn teithebau Gweithwyr Creadigol** a
- Teithio drwy Brydain.

Ni fydd cynllun Awdurdodiad Teithio Electronig yn berthnasol i:

- Dinasyddion y DU ac Iwerddon;
- Unigolion sydd â'r hawl i fyw ym Mhrydain
- Deiliaid teithebau'r DU presennol
- Deiliaid trwydded gweithiwr ffiniau'r Undeb Ewropeaidd ac
- Dinasyddion sy'n byw yn gyfreithiol yn Iwerddon ac sy'n mynd i Brydain o Iwerddon, Guernsey, Jersey neu Ynys Manaw

**Proses gais**

Bydd y cynllun yn gweithredu mewn ffordd debyg i System Electronig UDA ar gyfer Awdurdodi Teithio, lle mae'n rhaid i ddinasyddion rhai gwledydd nad oes arnynt angen teithebau i fynd i'r UDA gael caniatâd ymlaen llaw i ymweld.

Bydd ceisiadau'n cael eu gwneud ar-lein neu drwy ap yr Awdurdodiad Teithio Electronig. Rhaid i ymgeiswyr gael pasbort dilys â sglodyn, tynnu llun digidol a chofrestru eu biometreg. Nid yw cost Awdurdodiad Teithio Electronig wedi'i gyhoeddi eto. Amcangyfrifir y bydd yr amser prosesu yn dridiau gwaith, oni bai bod angen gwiriadau pellach.

Bydd Awdurdodiad Teithio Electronig yn ddilys am ddwy flynedd neu daw i ben yr un pryd â'r pasbort os yw'r pasbort yn dod i ben yn gynharach. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer sawl ymweliad. Os yw person sy'n gofyn iddo gael Awdurdodiad Teithio Electronig yn teithio i Brydain heb un, mae'n bosibl na chaiff fynediad.

**Cyflwyniad tri cham**

Mae'r gofyniad i gael Awdurdodiad Teithio Electronig cyn teithio yn cael ei gyflwyno'n raddol, gan ddechrau gyda dinasyddion Catar sy'n dymuno teithio i Brydain o 15 Tachwedd 2023 ymlaen at y dibenion tymor byr uchod. O 22 Chwefror 2024 ymlaen, bydd yn berthnasol i ddinasyddion:

- Bahrain
- Gwlad Iorddonen
- Cuwait
- Oman
- Sawdi Arabia
- Emiriaethau Arabia Unedig

Bydd rhagor o wledydd yn cael eu hychwanegu at y cynllun yn ddiweddarach.